annual conference 2023

# President's Address/ Anerchiad y Llwydd

#NASUWT2023

**President/Llywydd**
Rosemary Carabine

**General Secretary/Ysgrifennydd Cyffredinol**
Dr Patrick Roach

**Honorary Treasurer/Trysorydd Mygedol**
Michelle Codrington-Rogers

NASUWT
The Teachers' Union

# Annual Conference Speech

Conference,

I feel extremely honoured to be standing here as the new President of this wonderful union, the NASUWT, especially here in the City of Glasgow.

Angela Butler, thank you (diolch) for handing me this 'Bling', what a hard act you will be to follow!

Here we are, two Welsh presidents in a row. I know I live and work in England, but my heritage is Welsh. You have had an amazing year and thank you for your hard work, your passion for and your commitment to this union, while President.

Not only do I follow you with the Welsh heritage, I also follow a line of presidents from District 17 and from the Eastern Region. Clearly, activism in the Eastern Region inspires us to want more and I now mention our new Senior Vice-President, Rashida Din, who is also from the Eastern Region.

I look forward to the continued support I know I will get from Angela, Rashida and Michelle. We should be proud that 4/5 of the officers are women and that we have an officer group with the widest diversity ever. I welcome Wayne Broom as our new Junior Vice-President. However, sadly, with someone new, it means someone must leave us. I would personally like to thank Phil Kemp, who has come to the end of his term of office. Phil, you may not be on the officers group anymore, but I know you will not be lost to the NASUWT. You have left a remarkable legacy, a true trade unionist.

This acknowledgement must also include our General Secretary, Patrick Roach, and the staff of the NASUWT. We as the lay side of the Union are lucky to have such wonderful support from some very talented staff.

Well, Colleagues!

What about me as your new President?

I attended a very large comprehensive school in Swansea in 1970, called Mynyddbach. It was the year that grammar schools were abolished in Swansea and the school changed from a secondary modern to a comprehensive, quite a landmark and adjustment for the teachers of the day. This afforded equal opportunities for all students in Swansea.

The school had excellent extracurricular clubs. I was in the school choir, performed in school plays and attended the drama club, so I enjoyed the early years immensely.

I did not, however, enjoy the A-Level courses I chose. I lost a lot of confidence. I left school at the age of 17 and went to work for the West Glamorgan Health Authority. They sponsored me to do a vocational qualification in Medical Laboratory Science at Neath Technical College, while working in the hospital labs; and that was when things began to change for me.

I took an apprenticeship that guaranteed a job at the end of it, a novel Idea!!!!!! We need more suitable courses to give choice to students, along with meaningful apprenticeship opportunities.

For me, I was lucky enough to be in the right place at the right time, and achieve what I needed.

My Chemistry Lecturer at Neath Technical College was one of the first teachers to actually take an interest in us as students; he was funny and explained Chemistry in such a way that was accessible. He got to know us all and took an interest in our futures. He inspired my love of Chemistry. At last, someone suggested I needed a challenge and encouraged me to apply to Trent Polytechnic (now Nottingham Trent) to do Applied Chemistry.

I started my teacher training in 1999 and have always taught in Essex.

I was attracted to my current school, Moulsham High School, Chelmsford, because it has a policy to teach all subjects in specialism. I have always been lucky to teach Chemistry at GCSE and A-Level. In 2006, I was appointed the Head of Chemistry and subsequently appointed as Head of Science in 2011. I am still a serving teacher at the school after over 20 years of service and I am currently the School Rep.

I have stayed so long at my school, as it has been such a privilege to teach in my specialism. Teaching in specialism is a major strength of the school and pupil progress. When I started there in 2002, not many students studied Chemistry at A-Level or beyond. I was part of a team that inspired students to take Chemistry further. We went from one very small A-Level class of less than six to over 40 students taking Chemistry per year. There are also large numbers of students, way above national average, that take the separate sciences because of this policy. The science team at MHS are a committed and amazing team and, like me, enjoy the privilege of teaching in specialism, and their expertise means the schemes of work and teaching are relevant and up to date.

But, I realised very early on how challenging this policy was to maintain, as it was difficult to find specialists, particularly in Physics and Chemistry and the other STEM subjects. When Head of Science, I found trying to recruit and appoint good-quality science specialists to Science teacher roles a challenge, and it still is a problem mirrored in many schools.

In the past, STEM subjects such as Computer Science, Engineering, Chemistry and Physics had been harder for children and young people to access, particularly among girls and students from disadvantaged backgrounds.

I personally always loved Science and found it hard to understand why other people were not as enthusiastic as me. I experienced first-hand a reluctance of students to choose STEM subjects and wanted to actively promote Science and scientific opportunities. I wanted to see more girls and women wanting to study Chemistry and Physics, as at the time the small A-level classes were mostly boys. As a school, we started STEM clubs in Science and Computing. It was a way of breaking down barriers, giving pupils the opportunity to explore the subject and have fun, and as teachers we need more time to be able to do that.

We also need more time to be able to think outside the box. In 2010, I was fortunate to be able to take a group of 50 students to a STEM Conference at the IET headquarters in London. The title of the Conference was 'What will Science and Technology look like in 2020?' This inspiring Conference brokered links between schools and industry to support STEM teaching and increase the uptake of studying these subjects further, giving students as many opportunities as possible, including a visit to CERN, which was amazing. More young people taking STEM subjects at university is good news, especially as STEM subjects have a positive impact on the economy and society.

Sadly, these students are not then opting to go into teaching – they are typically able to access a higher starting wage in industry. In 2014, the DfE quoted data that showed an imbalance of specialisms within secondary science departments (44% of staff with a Biology background, 25% Chemistry and 19% Physics – the rest are not specialists at all). There has been little change a decade later and for Physics, I know the situation has worsened.

Teacher exit rates are far more severe in STEM subjects. Teachers in general are currently paid less than most other professional occupations, and pay is even more uncompetitive for those with degrees in Computer Science, Maths and Physics.

Governments across the UK are not doing enough, quickly enough, to address these problems. They need to boost salaries and improve pay incentives.

When will they wake up?

There is a teacher recruitment and retention crisis!

All teachers deserve a competitive salary – whatever subject they teach.

I started my activism in the National Union of Students; I left Swansea to study at Trent Polytechnic. I had only been at Trent for a term and found myself volunteering for security at concerts and events, to enhance my social life at first.

Of course, I got hooked and was subsequently elected to the executive committee of the student union. My campaign motto (not my creation) was 'if it moves, organise it'.

It was when I became a member of the NASUWT in 1999 that my activism fire was rekindled. I was elected the School Rep in September 2004, after the Rep left. I had started assisting the Rep to organise the members, so I was the obvious next choice. The headteacher at the time was extremely

supportive of trade unions and allowed me to attend the Rep 1 and 2 courses. I have worked for three notable headteachers, all of them different, but each of them have fully supported me in my teaching and union roles. Each of them had a true 'open door' policy and I am grateful to them for that. Why can't all school leaders demonstrate the same support for their teachers? My current headteacher has been particularly supportive and when I go to her door and utter the phrase 'have you got a minute?', despite her face growing pale at the sight of me, she always has more than a minute to listen. For that I am grateful. Working at Moulsham High School and for Bridge Academy Trust, I can honestly say my personal activism has never hindered me in my career.

A well-supported activist can develop, improve and enhance the workplace, making better conditions for everyone. We are not the problem; unions are part of the solution.

In early 2008, I was approached to become the Local Secretary in Mid Essex, I said yes, not really knowing what I was letting myself in for. I thought I only had to take a few minutes; little did I know. At about the same time, I became active in the Essex Federation. I am still an active caseworker, benevolence visitor and trainer. I became the National Executive Member for District 17, which includes Essex, Suffolk, Southend-on-Sea and Thurrock, in May 2016.

I attended my first NASUWT Conference in Bournemouth as a representative for Mid Essex Association. I did not know what to expect, but had convinced my colleague, Antoinette, to come with me. We took our children, my two sons Matthew and Michael and her daughter Georgina. After depositing them in the 'Nipperbout' Crèche, we went to the Conference. We were truly part of this huge organisation, with fellow delegates from Essex and across the UK. We were hooked; so much so that both of us have served on the Conference Standing Orders Committee over the years. Annual Conference was where we could talk to 'like-minded' people and make a difference. I have attended Conference ever since, with the family knowing that their Easter holiday belonged to the NASUWT.

Being part of the NASUWT is like being part of a family and I have to now mention my NASUWT family.

Essex Federation and the five Local Associations in Essex, what a team! Hard-working and passionate all the way, you make such a difference to our members. I will always be proud to be a member of Essex; you are my friends for life and you are simply always there.

Same goes for my dear friends in the Suffolk Federation, you truly welcomed me as your NEM and, like Essex, you too are always there for our members.

The Eastern Regional Committee, being part of this Committee and the work they are doing to promote and educate activists in equality and diversity has been a privilege. We have come a long way and, clearly over the years, this inclusive activism has inspired many of us to have the confidence to look further and to represent the NASUWT in other forums.

The staff in the Eastern Regional Centre are always there for us and I can honestly say nothing is too much trouble for them in supporting the Region. I have to thank them. However, I have to personally thank the Regional Organiser, Keith Anderson, who organised me into realising I was not just a minute-taker – I am a trade unionist.

I am most grateful to my husband, Mike. Without his support over the years, I would not have been able to first retrain as a teacher and to keep going in our challenging profession. I would definitely not be here as your President today or be so active in the NASUWT without that support. Thank you for putting up with me being away from home so much, and thank you in advance for more of the same in my presidential year.

Without the full support of Mike, my sons Matthew and Michael, or my extended family, I could not have done this. My sons have only known me as a teacher and so they also thank their dad for going to parents' evenings instead of me. Apparently, I was a nightmare!

None of us can be such effective activists or do what we do in our profession without the full support of our family and friends.

Finally, the NASUWT will always defend the rights of teachers.

Together, we will strive to allow teachers to use their professional judgment, be free to do the job they have been trained for and love. We will continue to fight against policies that are a barrier to this.

The NASUWT is dedicated to protect and maintain the profession we care about. In my small way, I hope to do you proud in my presidential year.

If we are to win the battles of the future, we need to stick together, all of us, in the finest and only union for teachers: **the NASUWT.**

# Araith y Gynhadledd Flynyddol

Cynhadledd,

Mae'n anrhydedd mawr cael sefyll yma fel Llywydd newydd yr undeb gwych hwn, yr NASUWT, yn enwedig yma yn Ninas Glasgow.

Angela Butler, diolch am roi'r 'Bling' hwn i mi, am dasg anodd y bydd i'ch dilyn!

Dyma ni, dau lywydd Cymraeg yn olynol. Rwy'n gwybod fy mod yn byw ac yn gweithio yn Lloegr, ond mae fy etifeddiaeth yn Gymreig. Rydych chi wedi cael blwyddyn anhygoel a diolch i chi am eich gwaith caled, eich angerdd a'ch ymrwymiad i'r undeb hwn, tra'n Llywydd.

Nid yn unig yr wyf yn eich dilyn gyda fy etifeddiaeth Cymraeg, rwyf hefyd yn dilyn llinach o lywyddion o Ardal 17 ac o Ranbarth y Dwyrain. Yn amlwg, mae actifiaeth yn Rhanbarth y Dwyrain yn ein hysbrydoli i fod eisiau mwy - ac rwy'n sôn yn benodol am ein Uwch Is-lywydd newydd, Rashida Din, sydd hefyd yn dod o Ranbarth y Dwyrain.

Edrychaf ymlaen at y gefnogaeth barhaus y gwn y byddaf yn ei gael gan Angela, Rashida a Michelle. Dylem fod yn falch fod 4 allan o 5 o'r swyddogion yn ferched a bod gennym grŵp swyddogion gyda'r amrywiaeth ehangaf erioed. Rwy'n croesawu Wayne Broom fel ein Is-lywydd Iau newydd. Fodd bynnag, yn anffodus, gyda rhywun newydd, mae'n golygu bod yn rhaid i rywun ein gadael. Hoffwn yn bersonol ddiolch i Phil Kemp, sydd wedi dod i ddiwedd ei dymor yn y swydd. Phil, efallai na fyddwch ar y grŵp swyddogion mwyach, ond gwn na fyddwch yn ddiethr i NASUWT. Yr ydych wedi gadael etifeddiaeth ryfeddol, ac yn wir undebwr llafur.

Rhaid i'r gydnabyddiaeth hon hefyd gynnwys ein Hysgrifennydd Cyffredinol, Patrick Roach, a staff NASUWT. Rydym ni fel ochr lleyg yr Undeb yn ffodus i gael cefnogaeth mor wych gan staff talentog iawn.

Wel, gydweithwyr!

Beth amdana i fel eich Llywydd newydd?

Mynychais ysgol gyfun fawr iawn yn Abertawe ym 1970, o'r enw Mynyddbach. Dyma'r flwyddyn y diddymwyd ysgolion gramadeg yn Abertawe a newidiodd yr ysgol o fod yn ysgol uwchradd fodern i ysgol gyfun, yn dipyn o dirnod ac yn newid byd i athrawon y dydd. Rhoddodd hyn gyfle cyfartal i holl fyfyrwyr Abertawe.

Roedd gan yr ysgol glybiau allgyrsiol rhagorol. Roeddwn i yng nghôr yr ysgol, yn perfformio mewn dramâu ysgol ac yn mynychu'r clwb drama, felly mwynheais y blynyddoedd cynnar yn fawr.

Wnes i ddim, fodd bynnag, fwynhau'r cyrsiau Lefel A a ddewisais. Collais lawer o hyder. Gadewais yr ysgol yn 17 oed ac es i weithio i Awdurdod Iechyd Gorllewin Morgannwg. Gwnaethant fy noddi i wneud cymhwyster galwedigaethol mewn Gwyddor Labordy Meddygol yng Ngholeg Technegol Castell-nedd, tra'n gweithio yn y labordai ysbytai; a dyna pryd y dechreuodd pethau newid i mi.

Cymerais brentisiaeth a oedd yn gwarantu swydd ar y diwedd, Syniad arloesol!!!!!!! Mae arnom angen cyrsiau mwy addas i roi dewis i fyfyrwyr, ynghyd â chyfleoedd prentisiaeth ystyrlon.

I mi, roeddwn i'n ddigon ffodus i fod yn y lle iawn ar yr amser iawn, a chyflawni'r hyn yr oeddwn ei angen.

Fy Narlithydd Cemeg yng Ngholeg Technegol Castell-nedd oedd un o'r athrawon cyntaf i gymryd diddordeb ynom ni fel myfyrwyr; roedd yn ddoniol ac esboniodd Cemeg mewn ffordd mor hygyrch. Daeth i'n hadnabod ni i gyd a chymerodd ddiddordeb yn ein dyfodol. Fe ysbrydolodd fy nghariad at Gemeg. O'r diwedd, awgrymodd rhywun fod angen her arnaf ac anogodd fi i wneud cais i Goleg Polytechnig Trent (Nottingham Trent erbyn hyn) i wneud Cemeg Gymhwysol.

Dechreuais fy hyfforddiant athrawon yn 1999 ac rwyf wedi dysgu yn Essex erioed.

Cefais fy nenu at fy ysgol bresennol, Ysgol Uwchradd Moulsham, Chelmsford, oherwydd mae ganddi bolisi i addysgu pob pwnc drwy arbenigedd. Rwyf bob amser wedi bod yn ffodus i ddysgu Cemeg ar lefel TGAU a Lefel A. Yn 2006, cefais fy mhenodi'n Bennaeth Cemeg ac yna fy mhenodi'n Bennaeth Gwyddoniaeth yn 2011. Rwy'n dal i fod yn athrawes yn yr ysgol ar ôl dros 20 mlynedd o wasanaeth ac ar hyn o bryd fi yw Cynrychiolydd yr Ysgol.

Rwyf wedi aros cyhyd yn fy ysgol, gan ei bod wedi bod yn gymaint o fraint i addysgu yn fy mhwnc arbenigol. Mae addysgu mewn pwnc arbenigol yn sail mawr yng nghynnydd yr ysgol a'r disgyblion. Pan ddechreuais i yno yn 2002, nid oedd llawer o fyfyrwyr yn astudio Cemeg ar gyfer Safon Uwch na thu hwnt. Roeddwn yn rhan o dîm a ysbrydolodd fyfyrwyr i fynd â Chemeg ymhellach. Aethom o un dosbarth Lefel A bach iawn o lai na chwech i dros 40 o fyfyrwyr yn cymryd Cemeg bob blwyddyn. Mae yna hefyd niferoedd mawr o fyfyrwyr, ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. sy'n cymryd y gwyddorau ar wahân oherwydd y polisi hwn. Mae tîm gwyddoniaeth yr ysgol yn dîm ymroddedig a rhyfeddol ac, fel fi, yn mwynhau'r fraint o addysgu mewn arbenigedd, ac mae eu harbenigedd yn golygu bod y cynlluniau gwaith a'r addysgu yn berthnasol ac yn gyfredol.

Ond, sylweddolais yn gynnar iawn, pa mor heriol oedd y polisi hwn i'w gynnal, gan ei bod yn anodd dod o hyd i arbenigwyr, yn enwedig mewn Ffiseg a Chemeg a'r pynciau STEM eraill. Pan oeddwn yn Bennaeth Gwyddoniaeth, cefais fod ceisio recriwtio a phenodi arbenigwyr gwyddoniaeth o ansawdd da i rolau athrawon gwyddoniaeth yn her, ac mae'n dal yn broblem a adlewyrchir mewn llawer o ysgolion.

Yn y gorffennol, roedd pynciau STEM fel Cyfrifiadureg, Peirianneg, Cemeg a Ffiseg wedi bod yn anoddach i blant a phobl ifanc gael mynediad atynt, yn enwedig ymhlith merched a myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig.

Yn bersonol, roeddwn i bob amser yn caru Gwyddoniaeth ac yn ei chael hi'n anodd deall pam nad oedd pobl eraill mor frwdfrydig â mi. Cefais brofiad uniongyrchol o amharodrwydd myfyrwyr i ddewis pynciau STEM ac roeddwn eisiau hyrwyddo Gwyddoniaeth a chyfleoedd gwyddonol. Roeddwn i eisiau gweld mwy o ferched yn dymuno astudio Cemeg a Ffiseg, gan mai bechgyn oedd y dosbarthiadau Lefel A bach ar y pryd. Fel ysgol, fe ddechreuon ni glybiau STEM mewn Gwyddoniaeth a Chyfrifiadureg. Roedd yn ffordd o chwalu rhwystrau, gan roi cyfle i ddisgyblion archwilio'r pwnc a chael hwyl, ac fel athrawon mae angen mwy o amser arnom i allu gwneud hynny.

Mae angen mwy o amser arnom hefyd i allu meddwl y tu allan i'r bocs. Yn 2010, roeddwn yn ffodus i allu mynd â grŵp o 50 o fyfyrwyr i Gynhadledd STEM ym mhencadlys IET yn Llundain. Teitl y Gynhadledd oedd 'Sut olwg fydd ar Wyddoniaeth a Thechnoleg yn 2020?' Roedd y Gynhadledd ysbrydoledig hon yn broceru cysylltiadau rhwng ysgolion a diwydiant i gefnogi addysgu STEM a chynyddu'r nifer sy'n astudio'r pynciau hyn ymhellach, gan roi cymaint o gyfleoedd â phosibl i fyfyrwyr, gan gynnwys ymweliad â CERN, a oedd yn anhygoel. Mae mwy o bobl ifanc yn cymryd pynciau STEM yn y brifysgol yn newyddion da, yn enwedig gan fod pynciau STEM yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi a chymdeithas.

Yn anffodus, nid yw'r myfyrwyr hyn wedyn yn dewis mynd i addysgu - maent fel arfer yn gallu cael cyflog cychwynnol uwch mewn diwydiant. Yn 2014 dyfynnodd yr Adran Addysg ddata a oedd yn dangos anghydbwysedd o ran arbenigeddau o fewn adrannau gwyddoniaeth uwchradd (44% o staff â chefndir Bioleg, 25% Cemeg a 19% Ffiseg – nid yw'r gweddill yn arbenigwyr o gwbl). Ychydig iawn o newid sydd wedi bod ddegawd yn ddiweddarach, ac ar gyfer Ffiseg gwn fod y sefyllfa wedi gwaethygu.

Mae cyfraddau ymadael athrawon yn llawer mwy difrifol mewn pynciau STEM. Ar hyn o bryd mae athrawon yn gyffredinol yn cael eu talu llai na'r rhan fwyaf o alwedigaethau proffesiynol eraill, ac

mae cyflog hyd yn oed yn fwy anghystadleuol i'r rhai sydd â graddau mewn Cyfrifiadureg, Mathemateg a Ffiseg.

Nid yw llywodraethau ledled y DU yn gwneud digon, yn ddigon cyflym, i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Mae angen iddynt roi hwb i gyflogau a gwella cymhellion cyflog.

Pryd fyddan nhw'n deffro?

Mae yna argyfwng recriwtio a chadw athrawon!

Mae pob athro yn haeddu cyflog cystadleuol – pa bynnag bwnc y maent yn ei addysgu.

Dechreuais fy ngweithgareddau undebol yn Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr; Gadewais Abertawe i astudio yng Ngholeg Polytechnig Trent. Dim ond ers tymor roeddwn wedi bod yn Trent a chefais fy hun yn gwirfoddoli i sicrhau diogelwch mewn cyngherddau a digwyddiadau, er mwyn gwella fy mywyd cymdeithasol ar y dechrau.

Wrth gwrs, fe nes i wirioni a chael fy ethol wedyn i bwyllgor gwaith undeb y myfyrwyr. Arwyddair fy ymgyrch (nid gan fi, nodwch) oedd 'os yw'n symud, trefnwch e'.

Pan ddes i'n aelod o NASUWT ym 1999 y cafodd fy angerdd actifiaeth ei ailgynnau. Cefais fy ethol yn Gynrychiolydd Ysgol ym mis Medi 2004, ar ôl i'r cynrychiolydd adael. Roeddwn wedi dechrau cynorthwyo'r cynrychiolydd i drefnu'r aelodau, felly fi oedd y dewis nesaf amlwg. Roedd y pennaeth ar y pryd yn hynod gefnogol i undebau llafur a chaniataodd i mi fynychu cyrsiau Cynrychiolwyr 1 a 2. Rwyf wedi gweithio i dri prifathro nodedig, pob un ohonynt yn wahanol, ond mae pob un ohonynt wedi fy nghefnogi'n llawn yn fy rolau addysgu ac undeb. Roedd gan bob un ohonynt wir bolisi 'drws agored' ac rwy'n ddiolchgar iddynt am hynny. Pam na all pob arweinydd ysgol ddangos yr un gefnogaeth i'w hathrawon? Mae fy mhennaeth presennol wedi bod yn arbennig o gefnogol a phan af at ei drws a dweud yr ymadrodd 'oes gennych chi funud?', er bod ei hwyneb yn mynd yn welw yn fy ngolwg, mae ganddi bob amser fwy na munud i wrando. Am hynny rwy'n ddiolchgar. Gan weithio yn Ysgol Uwchradd Moulsham ac i Bridge Academy Trust, gallaf ddweud yn onest nad yw fy ngweithgarwch personol erioed wedi fy rhwystro yn fy ngyrfa.

Gall actifydd â chefnogaeth dda ddatblygu, gwella a gwella'r gweithle, gan wneud amodau gwell i bawb. Nid ni yw'r broblem; undebau yn rhan o'r ateb.

Yn gynnar yn 2008, cysylltwyd â mi i ddod yn Ysgrifennydd Lleol yn Essex Ganol, dywedais ie, heb wybod mewn gwirionedd am beth yr oeddwn yn gosod fy hun. Roeddwn i'n meddwl mai dim ond ychydig funudau oedd yn rhaid i mi eu cymryd; ychydig a wyddwn. Tua'r un pryd, deuthum yn weithgar yn Ffederasiwn Essex. Rwy'n dal i fod yn weithiwr achos gweithredol, yn ymwelydd caredigrwydd ac yn hyfforddwr. Deuthum yn Aelod Gweithredol Cenedlaethol dros Ranbarth 17, sy'n cynnwys Essex, Suffolk, Southend-on-Sea a Thurrock, ym mis Mai 2016.

Mynychais fy nghynhadledd NASUWT gyntaf yn Bournemouth fel cynrychiolydd Cymdeithas Canolbarth Essex. Nid oeddwn yn gwybod beth i'w ddisgwyl, ond wedi argyhoeddi fy nghydweithiwr, Antoinette, i ddod gyda mi. Fe wnaethon ni gymryd ein plant - fy nau fab Matthew a Michael a'i merch Georgina. Ar ôl eu danfon i crèche 'Nipperbout', aethom i'r Gynhadledd. Roeddem yn wirioneddol yn rhan o'r sefydliad enfawr hwn, gyda chyd-gynadleddwyr o Essex a ledled y DU. Roedden ni wedi gwirioni; cymaint felly fel bod y ddau ohonom wedi gwasanaethu ar Bwyllgor Rheolau Sefydlog y gynhadledd dros y blynyddoedd. Roedd y Gynhadledd Flynyddol yn gyfle i ni siarad â phobl 'o'r un meddylfryd' a gwneud gwahaniaeth. Rwyf wedi mynychu'r Gynhadledd ers hynny, gyda'r teulu'n gwybod bod eu gwyliau Pasg yn perthyn i NASUWT.

Mae bod yn rhan o NASUWT fel bod yn rhan o deulu ac mae'n rhaid i mi nawr sôn am fy nheulu NASUWT.

Ffederasiwn Essex a'r pum cymdeithasol yn Essex, am dîm! Yn weithgar ac yn angerddol yr holl ffordd, rydych chi'n gwneud cymaint o wahaniaeth i'n haelodau. Byddaf bob amser yn falch o fod yn aelod o Essex; rydych chi'n ffrindiau i mi am oes ac yn syml iawn rydych chi yno bob amser.

Mae'r un peth yn wir am fy ffrindiau annwyl yn Ffederasiwn Suffolk, fe wnaethoch chi fy nghroesawu'n wirioneddol fel eich APG ac, fel Essex, rydych chi hefyd bob amser yno i'n haelodau.

Pwyllgor Rhanbarth y Dwyrain – mae wedi bod yn fraint bod yn rhan o'r Pwyllgor hwn a'r gwaith y maent yn ei wneud i hyrwyddo ac addysgu gweithredwyr ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Rydym wedi dod yn bell ac, yn amlwg dros y blynyddoedd, mae'r actifiaeth gynhwysol hon wedi ysbrydoli llawer ohonom i fod â'r hyder i edrych ymhellach ac i gynrychioli NASUWT mewn fforymau eraill.

Mae'r staff yng Nghanolfan Ranbarthol y Dwyrain bob amser yno i ni a gallaf ddweud yn onest nad oes dim yn ormod o drafferth iddynt gefnogi'r Rhanbarth. Mae'n rhaid i mi ddiolch iddyn nhw. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ddiolch yn bersonol i'r Trefnydd Rhanbarthol, Keith Anderson, am wneud i mi sylweddoli nad oeddwn i'n cymryd cofnodion yn unig – rwy'n undebwraig llafur.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'm gŵr, Mike. Heb ei gefnogaeth dros y blynyddoedd, ni fyddwn wedi gallu ailhyfforddi fel athro yn y lle cyntaf a dal ati yn ein proffesiwn heriol. Yn bendant ni fyddwn yma fel eich Llywydd heddiw nac mor weithgar yn NASUWT heb y gefnogaeth honno. Diolch i ti am ddioddef cymaint o fod oddi cartref gyda mi, a diolch ymlaen llaw am fwy o'r un peth yn fy mlwyddyn arlywyddol.

Heb gefnogaeth lawn Mike, fy meibion Matthew a Michael, neu fy nheulu estynedig, ni allwn fod wedi gwneud hyn. Dim ond fel athrawes y mae fy meibion wedi fy adnabod ac felly maent hefyd yn diolch i'w tad am fynd i nosweithiau rhieni yn lle fi. Mae'n debyg, roeddwn i'n hunllef!

Ni all yr un ohonom fod yn weithredwyr mor effeithiol na gwneud yr hyn a wnawn yn ein proffesiwn heb gefnogaeth lawn ein teulu a'n ffrindiau.

Yn olaf, bydd NASUWT bob amser yn amddiffyn hawliau athrawon.

Gyda'n gilydd, byddwn yn ymdrechu i ganiatáu i athrawon ddefnyddio eu crebwyll proffesiynol, bod yn rhydd i wneud y swydd y maent wedi'u hyfforddi ar ei chyfer ac y maent yn ei charu. Byddwn yn parhau i frwydro yn erbyn polisïau sy'n rhwystr i hyn.

Mae NASUWT yn ymroddedig i amddiffyn a chynnal y proffesiwn sy'n bwysig i ni. Yn fy ffordd fach, rwy'n gobeithio eich gwneud chi'n falch yn fy mlwyddyn arlywyddol.

Os ydym am ennill brwydrau'r dyfodol, mae angen inni gadw at ein gilydd, bob un ohonom, yn yr undeb gorau a'r unig un i athrawon: yr NASUWT.